OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2894

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2014.

### Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**1**), wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 17, mewnosoder—

"**18.** Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)(**2**).

**19.** Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(**3**).

**20.** Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**4**).

**21.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diwygio Atodiad X i'r Rheoliad hwnnw(**5**).

**22.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**6**).

(**1**) O.S. 2006/3342 (Cy. 303), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 175) ac O.S. 2010/1807 (Cy. 175).
(**2**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 487.
(**3**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 549.
(**4**) OJ Rhif L 347, 20.12.2014, t. 608.
(**5**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 1.
(**6**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 48.

**23.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**7**).

**24.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a chyflwyno darpariaethau trosiannol(**8**).

**25.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 808/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)(**9**).

**26.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**10**)."

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

4 Tachwedd 2014

(**7**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 74.
(**8**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 1.
(**9**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 18.
(**10**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69.